Supporters Update December 2023

Farm Restoration in the Vale of Glamorgan

Throughout this year INCC has been involved in an exciting farmland habitat restoration project in the Vale of Glamorgan. The new owners wanted to create a financially viable wildlife rich farm. To help the owners realise their vision, INCC have been undertaking habitat assessments and ecological surveys so that we can make recommendations for habitat creation and restoration. The farm is already home to wonderful species such as Brown Hare, Otter and Yellowhammer. These species and others will benefit from further habitat creation at the farm over the coming years.

Farm Restoration Cefn Garthenor

INCC has been working closely with the landowner at Cefn Garthenor since 2021. This year we have been undertaking ecological surveys of the farm to establish a baseline so that we can plan for future habitat creation and restoration schemes. As part of our surveys, we have recorded Marsh Fritillary butterfly, Water Vole, Polecat as well as fields full of Whorled Caraway. A new element of the project has been working with volunteers and students at Cefn Garthenor to share our experiences of species surveys and habitat restoration schemes. In June of this year INCC and the landowner hosted a weekend study trip at Cefn Garthenor for Countryside Management students at Bridgend College.

Farm Restoration in Pembrokeshire

Building on our experiences of landscape nature conservation projects and farm restorations, INCC will be soon undertaking another whole farm habitat restoration plan at a mixed farm in North Pembrokeshire. The farm habitat assessment and surveys will look at how woodland management, low level cattle grazing and arable farming (with heritage grains) can create an area rich in wildlife, from Lesser Horseshoe bats and Dormice to rare arable weeds and invertebrates. Preliminary work has already taken place, with more to follow in 2024.

Legal Challenges – Fighting Fund Appeal – Initiative for Nature Conservation Cymru

Our fight to compel NRW to manage a Site of Special Scientific Interest (SSSI) in South Wales is ongoing. The SSSI grassland habitat has not been managed for over 10 years and now most of the special features at the site have either been lost or are incredibly vulnerable. Our pressure on NRW has motivated them to draft a new agreement with the landowner. We will keep the pressure on until the SSSI is being managed properly.

Marsh Fritillary Reinforcement

2023 has been another successful year for our Marsh Fritillary reinforcement project. This year, larval web numbers are down to just over 100, which is still an amazing achievement. Rearing of caterpillars will take place again next year along with targeted habitat creation and restoration in the landscape. This year we have been able to show various groups and individuals around Llantrisant Common to see the butterflies on the wing.

Amman Valley Landscape Restoration

INCC has recently taken on its first nature reserve, Llygad Llwchwr in the Bannau Brycheiniog National Park. The nature reserve is over 60ha in area and comprises of woodland, marsh, meadow, scrub and heathland. It's going to take us a while to get the appropriate management, but we are looking forward to the challenge. As well as habitat management we aim to investigate whether the site can support Beavers and White-clawed Crayfish. The nature reserve is part of our wider landscape scale nature conservation in the Amman Valley.

We are happy to welcome Alice Connell as out new Community Conservation Officer. Alice will be working with landowners and community volunteers in the Amman Valley to undertake even more nature conservation projects. She will be based at the community wildlife garden and delivering conservation projects for House Martins, Hedgehogs and Pied Flycatchers, to name a few.

Diweddariad Cefnogwyr Rhagfyr 2023

Adfer Fferm ym Mro Morgannwg

Drwy gydol y flwyddyn yma mae INCC wedi bod yn ymwneud â phrosiect adfer cynefinoedd cyffrous ar dir fferm ym Mro Morgannwg. Roedd y perchnogion newydd eisiau creu fferm gyfoethog o ran bywyd gwyllt sy'n ariannol hyfyw. Er mwyn helpu'r perchnogion i wireddu eu gweledigaeth, mae INCC wedi bod yn cynnal asesiadau cynefinoedd ac arolygon ecolegol fel ein bod ni'n gallu gwneud argymhellion ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd. Mae'r fferm eisoes yn gartref i rywogaethau gwych fel yr Ysgyfarnog, y Dyfrgi a'r Bras Melyn. Bydd y rhywogaethau hyn ac eraill yn elwa o greu cynefinoedd pellach ar y fferm dros y blynyddoedd nesaf.

Adfer Fferm yng Nghefn Garthenor

Mae INCC wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r perchennog tir yng Nghefn Garthenor ers 2021. Eleni rydym wedi bod yn cynnal arolygon ecolegol o'r fferm i sefydlu llinell sylfaen fel ein bod ni'n gallu cynllunio ar gyfer cynlluniau creu ac adfer cynefinoedd yn y dyfodol. Fel rhan o'n harolygon, rydym wedi cofnodi glöyn byw Britheg y Gors, Llygod Pengrwn y Dŵr, Ffwlbartiaid yn ogystal â chaeau'n llawn Carwy Droellennog. Mae elfen newydd o'r prosiect wedi cynnwys gweithio gyda gwirfoddolwyr a myfyrwyr yng Nghefn Garthenor i rannu ein profiadau o arolygon rhywogaethau a chynlluniau adfer cynefinoedd. Ym mis Mehefin eleni, cynhaliodd INCC a'r perchennog tir drip astudio penwythnos yng Nghefn Garthenor ar gyfer myfyrwyr Rheolaeth Cefn Gwlad yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr.

Adfer Fferm yn Sir Benfro

Gan adeiladu ar ein profiadau o brosiectau cadwraeth natur tirwedd ac adfer ffermydd, bydd INCC yn ymgymryd â chynllun adfer cynefin fferm gyfan arall yn fuan ar fferm gymysg yng Ngogledd Sir Benfro. Bydd yr asesiad cynefinoedd a'r arolygon yn edrych ar sut gall rheoli coetiroedd, pori lefel isel gan wartheg a ffermio âr (gyda grawn treftadaeth) greu ardal sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, o Ystlumod Pedol Lleiaf a Phathewod i chwyn âr prin ac infertebrata. Mae gwaith rhagarweiniol wedi'i wneud eisoes, gyda mwy i ddilyn yn 2024.

Heriau Cyfreithiol – Apêl Cronfa Ymladd – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru

Mae ein brwydr ni i orfodi CNC i reoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Ne Cymru yn parhau. Nid yw cynefin glaswelltir y SoDdGA wedi cael ei reoli ers dros 10 mlynedd ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o nodweddion arbennig y safle naill ai wedi'u colli neu'n hynod agored i niwed. Mae ein pwysau ni ar CNC wedi eu cymell i ddrafftio cytundeb newydd gyda'r perchennog tir. Byddwn yn parhau i roi pwysau nes bod y SoDdGA yn cael ei reoli'n briodol.

Hwb i Fritheg y Gors

Mae 2023 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus arall i'n prosiect ni i roi hwb i Fritheg y Gors. Eleni, mae niferoedd y gweoedd larfal wedi gostwng i ychydig dros 100, sy'n parhau i fod yn gyflawniad anhygoel. Bydd magu'r lindys yn digwydd eto'r flwyddyn nesaf ynghyd â chreu ac adfer cynefinoedd wedi'u targedu yn y dirwedd. Eleni rydym wedi gallu tywys grwpiau ac unigolion amrywiol o amgylch Comin Llantrisant i weld y glöynnod byw yn hedfan.

Adfer Tirwedd Dyffryn Aman

Yn ddiweddar mae INCC wedi cael ei gwarchodfa natur gyntaf, Llygad Llwchwr, ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae arwynebedd y warchodfa natur yn fwy na 60ha ac yn cynnwys coetir, cors, dôl, prysgwydd a rhostir. Mae'n mynd i gymryd cryn dipyn o amser i ni sicrhau'r rheolaeth briodol, ond rydym yn edrych ymlaen at yr her. Yn ogystal â rheoli cynefinoedd, ein nod ni yw ymchwilio i weld a all y safle fod yn gartref i Afancod a Chimychiaid Afon Crafanc Wen. Mae'r warchodfa natur yn rhan o'n cadwraeth natur ehangach ni ar raddfa tirwedd yn Nyffryn Aman.

Rydym yn falch iawn o groesawu Alice Connell fel Swyddog Cadwraeth Cymunedol newydd. Bydd Alice yn gweithio gyda pherchnogion tir a gwirfoddolwyr cymunedol yn Nyffryn Aman i ymgymryd â mwy fyth o brosiectau cadwraeth natur. Bydd yn gweithio yn yr ardd bywyd gwyllt gymunedol ac yn cyflwyno prosiectau cadwraeth ar gyfer Gwenoliaid y Bondo, Draenogod a'r Gwybedog Brith, i enwi dim ond rhai rhywogaethau.

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru
Initiative for Nature Conservation Cymru